Rhif: **WG21795**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau

Dyddiad cyhoeddi: **28 Ebrill 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **21 Gorffennaf 2014**

# Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn datgan y cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau perthnasol i lunio ac adolygu cynlluniau datblygu ysgolion.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **21 Gorffennaf 2014** fan hwyraf. (Dylid nodi 'Ymgynghoriad CDY' ym mlwch pwnc y neges e-bost.)

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Ymgynghoriad y Cynlluniau Datblygu Ysgolion
Is-adran Safonau a Datblygiad Proffesiynol Ymarferwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014
WG21795

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** **2**

**2. Beth yw cynnwys yr ymgynghoriad?** **3**
Beth yw cynllun datblygu ysgol? 3

**3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?** **5**
Y broses gynllunio 5
Datblygiad proffesiynol 5
Y ddeddfwriaeth bresennol 6

**4. Pam rydym yn cynnig newid?** **7**
Tystiolaeth o blaid newid 7
Gwneud y broses gynllunio'n fwy effeithlon 7
Cryfhau datblygiad proffesiynol 8
Rhannu arferion effeithiol 8

**5. Pa newidiadau penodol sy'n cael eu cynnig?** **10**
Deddfwriaeth 10
Cyfarwyddyd 13

**6. Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?** **14**

# 1. Cyflwyniad

Mae codi safonau addysg a gwella canlyniadau dysgwyr wrth galon y diwygiad addysg yng Nghymru. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dynodi bod cynllunio effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir yn sail i wella ysgolion, yn gysylltiedig â thargedau heriol.

Mae datblygu diwylliant o gynllunio strategol, hunanarfarnu effeithiol a phennu targedau yn hanfodol er mwyn datgan a lleihau'r amrywiaeth ym mherfformiad ysgolion. Adlewyrchir hyn yn fframwaith arolygu cyffredin Estyn (a gyflwynwyd yn 2010), sy'n rhoi lle canolog i hunanarfarnu yn y gwaith o wella ysgolion. Hunanarfarniad yw dull ysgolion o ddehongli data, adlewyrchu, pennu targedau a chynllunio sut byddant yn eu cyrraedd. Mae tystiolaeth o adroddiadau arolygu Estyn, perfformiad mewn profion PISA a data perfformiad a ddefnyddir wrth fandio ysgolion yn tynnu sylw at amrywiaethau yn ansawdd yr hunanarfarnu, y cynllunio effeithiol a'r targedau a bennir ac mae'n tynnu sylw at effaith amrywiaethau o'r fath ar berfformiad ysgolion.

Fis Hydref 2012, lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny *Gwella ysgolion*, cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer diwygio addysg ysgolion yng Nghymru. Roedd y camau gweithredu yn y cynllun gweithredu'n adeiladu ar y cynllun gweithredu 20 pwynt ar gyfer gwella ysgolion a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2011, yn seiliedig ar dair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer addysg.

- Gwella lefelau llythrennedd.
- Gwella lefelau rhifedd.
- Lleihau effaith tlodi a chyni ar ganlyniadau dysgwyr.

Roedd y cynllun 20 pwynt yn cynnwys ymrwymiad y byddai disgwyl i ysgolion ddatgan mewn cynllun datblygu ysgol (CDY), wedi'i gymeradwyo gan eu llywodraethwyr, sut byddant yn cyrraedd safonau uwch mewn perfformiad addysgol yn seiliedig ar dargedau dyhead y bydd Llywodraeth Cymru yn eu pennu ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Yn ymarferol, caiff ysgolion ddefnyddio teitlau eraill fel cynllun gwella ysgol neu gynllun gweithredu ysgol. Yn yr ymgynghoriad hwn, 'cynllun datblygu ysgol' yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at brif adnodd cynllunio strategol yr ysgol.

Mae *Gwella ysgolion* yn hybu'r defnydd o ddata perfformiad a gwybodaeth arall er mwyn datgan blaenoriaethau a chyflawni gwelliannau y gellir eu cynnal. Mae'n datgan ei bod yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod amcanion perfformiad ymarferwyr a'u datblygiad proffesiynol yn gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu ysgol a chanlyniadau dysgwyr, ac yn enwi'r CDY fel yr adnodd ar gyfer cofnodi blaenoriaethau o'r fath.

## 2. Beth yw cynnwys yr ymgynghoriad?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Rheoliadau sy'n datgan ei bod yn ofynnol i bob ysgol gyflwyno ei blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella perfformiad yr ysgol, a sut mae'n bwriadu rhoi sylw iddynt, mewn dogfen gynllunio unigol; y CDY.

I lawer o ysgolion, ni fydd cyflwyno'r Rheoliadau'n arwain at fawr o newid, os o gwbl, i'w harferion presennol, ac nid ydym yn dymuno gweld ysgolion yn newid trefniadau'n ddiangen os ydynt wedi profi'n effeithiol eisoes. Fodd bynnag, ledled Cymru ceir amrywiaeth yng nghwmpas, ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau ysgolion. Er bod gan lawer o ysgolion gynllun eisoes ar gyfer gwella safonau addysgol, sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol ar hyn o bryd ac felly mae'n gadael adnodd hanfodol ar gyfer gwella ysgolion fel opsiwn nad yw pob ysgol yn ei ddefnyddio'n effeithiol.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw canfod y farn am gyflwyno'r Rheoliadau perthnasol i CDY ac, yn benodol, y newidiadau canlynol.

- Pob ysgol i gael CDY cyfredol fel gofyniad statudol a'i gwneud yn ddyletswydd i'r corff llywodraethu mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir, adolygu'r CDY yn achlysurol.
- Pennu gofynion penodol ar gyfer cynnwys y CDY a'r broses gynhyrchu ac adolygu.
- Gwneud y broses gynllunio'n fwy effeithiol drwy ddatgan ei bod yn ofynnol i'r CDY gynnwys yr holl ddogfennau cynllunio gwelliant strategol.
- Manylu ar drefniadau ar gyfer cyhoeddi'r CDY a sicrhau ei fod ar gael i'w weld.

Disgrifir y newidiadau hyn yn fanylach yn adran 5 (gweler tudalen 10).

### Beth yw cynllun datblygu ysgol?

Mae'r CDY yn gynllun strategol ar gyfer gwelliant. Bydd hunanarfarniad o berfformiad yr ysgol a data cyd-destunol yn sail iddo a bydd yn cynnwys blaenoriaethau gwella'r ysgol (a fydd yn cynnwys sut mae'r ysgol yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cenedlaethol[1]), targedau tymor byr a thymor hwy, a hefyd cynllun ar gyfer sut bydd yr ysgol yn eu cyflawni a sut bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddi ar gael, gan gynnwys cyllid. Bydd hefyd yn datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ei staff mewn perthynas â blaenoriaethau a thargedau'r ysgol.

---

[1] Codi safonau addysg mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.

Mae CDY yn datgan y cynllun cyffredinol ar gyfer gwelliant yn y tymor byr a’r tymor hwy, gyda manylion digonol i alluogi i gamau gweithredu tymor byr gael eu datgan a’u rhoi ar waith. Mae’n ddogfen fyw sy’n cael ei defnyddio fel man cyfeirio gan y staff a’r llywodraethwyr i gyd er mwyn adlewyrchu ar eu gwaith a’i wella.

# 3. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

## Y broses gynllunio

Mae tystiolaeth gan Estyn yn dynodi bod hunanarfarnu’n hanfodol er mwyn datgan a lleihau’r amrywiaethau mewn perfformiad (Llawlyfr hunanarfarnu Estyn 2010).

Mae adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2012–13 yn dod i’r casgliad bod posib cryfhau’r hunanarfarnu a’r cynllunio ar gyfer gwelliant mewn ychydig dros chwarter yr ysgolion hynny yng Nghymru a arolygwyd.

Efallai fod ysgolion yn llunio nifer o gynlluniau ar hyn o bryd fel rhan o’r broses gynllunio, er enghraifft, cynllun datblygu ysgol, cynllun datblygu staff, cynlluniau gwariant ar gyfer cyllid Grant, cynllun gweithredu ar ôl arolwg a/neu gynllun ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad statudol i ysgolion fod â CDY yn ei le.

## Datblygiad proffesiynol

Ansawdd yr addysgu yw’r ffactor unigol pwysicaf o ran helpu dysgwyr i gyflawni. Felly mae’n rhaid i ysgolion sicrhau bod gan y rhai sydd naill ai’n addysgu, yn cefnogi’r addysgu neu’n arwain yr addysgu, y sgiliau a’r profiad angenrheidiol i ddarparu addysgu o ansawdd uchel.

Mae disgwyl i ymarferwyr adlewyrchu ar eu harferion, a’u hasesu, yn rheolaidd, gan ddefnyddio’r safonau proffesiynol perthnasol fel cefndir, fel rhan o’r broses rheoli perfformiad. Pwrpas y safonau proffesiynol hyn yw gwella canlyniadau dysgwyr drwy ddatgan beth a ddisgwylir gan ymarferwyr.

Drwy’r broses rheoli perfformiad, mae anghenion datblygiad proffesiynol yn cael eu datgan. Yn hanesyddol, mae datblygiad proffesiynol wedi dibynnu’n aml ar ddulliau gweithredu traddodiadol, fel cyrsiau hyfforddi oddi ar y safle i nifer cyfyngedig o unigolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod ymarferwyr yn dysgu orau pan maent yn rhan o rwydwaith cydweithredol a chefnogol; pan maent yn gallu rhoi eu dysgu ‘ar brawf’ mewn sefyllfa ddysgu (ymchwil gweithredol); pan maent yn gallu dysgu oddi wrth arferion pobl eraill a phan maent yn adlewyrchu’n fanwl ar y canlyniadau a sicrhawyd.

Mae dull Llywodraeth Cymru o weithredu mewn perthynas â datblygiad proffesiynol yn adlewyrchu’r dystiolaeth hon ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cael gwneud defnydd o ddatblygiad proffesiynol drwy gydol eu gyrfa sy’n effeithiol, yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol. Yn sail i’r dull hwn o weithredu mae’r model ymarfer, adolygu a datblygu (YAD) sy’n integreiddio safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn sicrhau bod datblygiad proffesiynol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella ysgolion ac wedi’i addasu i roi sylw i anghenion unigol.

## Y ddeddfwriaeth bresennol

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol yn berthnasol i CDY. Fodd bynnag, mae'r gofynion statudol presennol yn pennu rhwymedigaethau ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion mewn perthynas â thri maes sy'n allweddol i gynllunio strategol.

- **Perfformiad ysgolion a phennu targedau** – mae rhwymedigaeth statudol, sydd wedi'i datgan yn *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011,* i gyrff llywodraethu ddatgan targedau perfformiad cyfnodau allweddol a'u cyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae targedau perfformiad cyfnodau allweddol yn rhan o gynnwys adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn asesiadau'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol, yn ogystal â chyllidebau a manylion gwariant.

- **Adroddiad blynyddol y llywodraethwyr** – mae'n rhwymedigaeth statudol i ysgolion lunio adroddiad blynyddol sy'n cyflwyno cynnydd yr ysgol ers yr adroddiad blynyddol diwethaf (*Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011*). Mae'n ofynnol i ysgolion lunio crynodeb o'r adroddiad blynyddol i fod ar gael i'r rhieni/gofalwyr i gyd, a dylai'r adroddiad blynyddol llawn fod ar gael ar gais. Ar hyn o bryd, y cynnwys sy'n ofynnol yn yr adroddiad cryno yw gwybodaeth am berfformiad ond nid am dargedau na'r gyllideb.

- **Rheoli perfformiad** – yn 2011, daeth Rheoliadau rheoli perfformiad adolygedig i rym (*Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011*). Mae'r trefniadau adolygedig yn cryfhau'r rheolaeth perfformiad penaethiaid ac athrawon drwy gysylltu gweithdrefnau adolygu ac amcanion unigolion â blaenoriaethau ysgol gyfan, fel sydd wedi'u datgan mewn cynllun gwella ysgol (h.y. y CDY). Mae *Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011* yn datgan ei bod yn ofynnol cysylltu amcanion perfformiad a datblygiad proffesiynol ymarferwyr â blaenoriaethau datblygu ysgol.

## 4. Pam rydym yn cynnig newid?

### Tystiolaeth o blaid newid

Mae'r broses o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ganolog i gefnogi datblygiadau mewn dysgu proffesiynol a chanlyniadau dysgwyr.

Rydym yn gwybod bod gan rai ysgolion gynlluniau cadarn eisoes ar gyfer gwelliant ac ni fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at fawr o newid, os o gwbl, i'r ysgolion hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bob ysgol: mae tystiolaeth gan Estyn yn dynodi bod cwmpas, ansawdd ac effeithiolrwydd y cynlluniau datblygu ysgol yn amrywio. Ceir hefyd amrywiaeth yng ngraddfa'r ystyriaeth yn y cynlluniau ysgol i dargedau gwella yn y tymor hwy.

> *"Gyda phob darparwr rhagorol ... mae'r ansawdd hwnnw'n cael ei gynnal drwy gylch blynyddol o hunanarfarnu gonest a chynllunio ar gyfer gwelliant"*
>
> *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru 2012-13*

Ceir tystiolaeth ryngwladol sy'n dynodi bod cynllunio tymor byr a hir effeithiol, yn gysylltiedig â thargedau heriol, yn cefnogi gwelliannau mewn ysgolion.

Mae Estyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ysgolion yn cynnal hunanarfarniad er mwyn datgan eu cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ac mae wedi datgan cyswllt cadarn rhwng hunanarfarniad ysgolion a gwelliannau mewn profiadau addysgol a chanlyniadau i ddysgwyr (*Llawlyfr hunanarfarnu i ysgolion uwchradd,* 2010). Hunanarfarnu yw'r dull a ddefnyddir gan ysgolion i adlewyrchu ar eu perfformiad ac maent yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gwelliant.

### Gwneud y broses gynllunio'n fwy effeithlon

Mae cynllunio gwelliant effeithiol yn seiliedig ar broses o hunanarfarnu gonest. Mae'r CDY yn adnodd ar gyfer cofnodi'r camau gweithredu a'r targedau angenrheidiol ar gyfer y meysydd hynny lle mae'r angen mwyaf am welliant. Bydd CDY effeithiol yn datgan yn glir flaenoriaethau a thargedau gwella'r ysgol ac yn dangos sut mae'r ysgol yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cenedlaethol, y prif fesurau y bydd yn eu rhoi ar waith i godi safonau, yr adnoddau a ddefnyddir i gyflawni hyn a'r canlyniadau allweddol. Dylai hefyd ddatgan sut mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ei staff mewn perthynas â'i blaenoriaethau a'i thargedau.

Dim ond un cynllun gwella sydd ei angen ar ysgol. O'r herwydd, dylai'r CDY fod yr unig ddull o gofnodi blaenoriaethau a strategaethau gwella'r ysgol a bod yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw her, cefnogaeth neu ymyriadau allanol. Felly, ni ddylai fod yn angenrheidiol cael cynlluniau eraill yn eu lle, fel cynlluniau gwariant ar gyfer grantiau neu gynlluniau ar ôl arolwg – dylai'r rhain fod yn rhan greiddiol o'r CDY, a fydd yn adlewyrchu amgylchiadau'r ysgol ar unrhyw adeg.

Felly, ein bwriad ni wrth gyflwyno Rheoliadau ar gyfer CDY yw darparu hefyd gyfrwng i wneud prosesau cynllunio strategol ysgolion yn fwy effeithlon ac osgoi unrhyw ddyblygu diangen a biwrocratiaeth ychwanegol.

## Cryfhau datblygiad proffesiynol

Dylai'r holl ymarferwyr, y rhai sy'n addysgu, y rhai sy'n cefnogi athrawon a'r rhai sy'n arwain athrawon, gael cyfleoedd drwy gydol eu gyrfa i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella.

Mae Estyn wedi canfod mai un nodwedd gyffredin mewn arweiniad rhagorol sy'n arwain at addysgu rhagorol yw datblygiad proffesiynol sydd â'i ffocws ar flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella, ac ar ddatblygu sgiliau ac arbenigedd unigol athrawon yng nghyd-destun blaenoriaethau ysgol. Er bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn arferion presennol llawer o ysgolion, ceir tystiolaeth o hyd nad yw gweithgareddau datblygiad proffesiynol yn gysylltiedig bob amser â blaenoriaethau ysgolion (*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru 2012–13*).

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol a fydd yn rhoi i'r holl ymarferwyr mewn ysgolion strwythur a dull gweithredu clir ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Mae'r model yn seiliedig ar ddulliau dysgu sydd wedi'u datgan fel rhai effeithiol ac sy'n cynnwys:

- hyfforddi a mentora
- ymgysylltu â thystiolaeth
- cydweithredu effeithiol
- ymarfer myfyriol.

Mae CDY effeithiol yn datgan blaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer gwella a bydd yn gosod y cyd-destun ar gyfer rheolaeth perfformiad a datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. Bydd y model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r broses rheoli perfformiad a'r safonau proffesiynol er mwyn sicrhau bod cyswllt cadarn rhwng anghenion datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr â blaenoriaethau a'u bod yn cael eu bodloni yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol.

Mae'r Rheoliadau arfaethedig yn datgan ei bod yn ofynnol i'r cynllun datblygu ysgol gael ei ddiweddaru bob blwyddyn o leiaf, fel bod cynlluniau a strategaethau gwella ysgolion yn adlewyrchu cyd-destun diweddaraf yr ysgol.

## Rhannu arferion effeithiol

Ochr yn ochr â chyflwyno Rheoliadau, byddwn yn cyflwyno cyfarwyddyd sy'n tynnu sylw at egwyddorion allweddol cynllunio effeithiol, gan gynnwys rhannu arferion effeithiol presennol, hunanarfarnu cadarn a gonest, pennu targedau gwella tymor byr a thymor hwy, cynllunio sut bydd y targedau hynny'n cael eu cyrraedd ac adolygu cynnydd.

Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu bod yn rhy fanwl ynghylch hyn. Fel y crybwyllwyd eisoes, nid ydym yn dymuno gweld ysgolion yn newid eu prosesau cynllunio'n ddiangen os yw'r rhain eisoes yn effeithiol, cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau. Rydym yn credu y dylai ysgolion allu mabwysiadu fformatau a chylchoedd blynyddol sy'n diwallu eu hanghenion orau a'r gofynion presennol statudol i roi gwybod am dargedau perfformio penodol i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

# 5. Pa newidiadau penodol sy'n cael eu cynnig?

## Deddfwriaeth

Mae'n fwriad i'r Rheoliadau osod dyletswydd ar gyrff llywodraethu'r holl ysgolion a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir) i sefydlu CDY. Hefyd, byddai'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ddyletswydd i gyrff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth a phobl neu gyrff perthnasol eraill, a monitro, adolygu a diwygio'r cynllun yn flynyddol. Hefyd, bydd y Rheoliadau'n manylu ar y canlynol.

- Rôl a chyfrifoldebau'r cyrff llywodraethu wrth lunio a chynnal y CDY. Defnydd o ddata perfformiad ysgolion yn sail i'r CDY.
- Amserlen y cylch gweithredu.
- Cynnwys gofynnol y CDY.
- Cyhoeddi a mynediad i'r CDY.
- Dyletswydd i adolygu ac asesu, bob blwyddyn o leiaf, i ba raddau y mae'r targedau wedi'u cyrraedd.

Disgrifir pob pwynt yn fanylach isod.

Mae'n bwysig nodi bod y Rheoliadau'n manylu ar y gofynion **isafswm** ar gyfer CDY. Ni fydd raid i ysgolion sydd eisoes â CDY effeithiol sy'n rhagori ar y gofynion hyn ddiwygio eu dull o weithredu ond dylent eu bodloni eu hunain nad yw eu proses gynllunio'n rhy feichus.

- **Rôl a chyfrifoldebau'r cyrff llywodraethu**

  Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol yw'r CDY yn y pen draw, gan mai'r corff hwn sy'n atebol am berfformiad yr ysgol. Mae'r pennaeth yn chwarae rhan ganolog o ran sicrhau bod cynllun gwella'r ysgol a'r dull o'i weithredu'n llwyddiannus. Felly, cynigir bod y corff llywodraethu'n ymgynghori â'r pennaeth ar baratoi neu adolygu'r CDY. Bydd y corff llywodraethu'n monitro, yn adolygu ac yn diwygio'r CDY yn flynyddol.

  Wrth baratoi neu adolygu'r CDY, cynigir bod y corff llywodraethu'n ystyried safbwyntiau'r pennaeth, y dysgwyr, y rhieni/gofalwyr, y staff a'r bobl neu'r cyrff perthnasol eraill. Mae'n bwysig bod blaenoriaethau lefel uchel yr ysgol ar gyfer gwelliant yn cael eu rhannu gan fod gan y rhanddeiliaid allweddol i gyd ran i'w chwarae yn y broses cynllunio gwelliant.

- **Defnydd o ddata perfformiad ysgolion yn sail i'r CDY**

  Fel rhan o'u gwaith hunanarfarnu a phennu targedau, mae'n bwysig bod ysgolion yn datgan blaenoriaethau ac yn pennu targedau gwella tymor byr a thymor hwy gan ddefnyddio data perfformiad cadarn. Mae'r Rheoliadau arfaethedig yn datgan ei bod yn ofynnol i'r corff llywodraethu ystyried y wybodaeth am berfformiad ysgolion a chanlyniadau cyrhaeddiad dysgwyr yn yr ysgol yn ystod y gwaith o

baratoi ac adolygu eu CDY. Mae'r Rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn datgan ei bod yn ofynnol casglu gwybodaeth am berfformiad; felly, nid yw'r gofyniad arfaethedig yn gosod unrhyw faich ychwanegol ar ysgolion. Y Rheoliadau perthnasol yw *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011* a *Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011).*

Hefyd, byddai'r hunanarfarnu'n ystyried unrhyw argymhellion sydd wedi'u gwneud yn dilyn arolwg gan Estyn ar yr ysgol a byddai'r CDY yn cael ei adolygu i gynnwys y camau gweithredu ar gyfer gwella yn y cynllun gweithredu ar ôl yr arolwg. Gall dulliau diagnostig eraill o weithredu, fel y rhai a ddefnyddir yn y Rhaglen Gefnogi Genedlaethol (RhGG) a rhaglenni gwella eraill, gyfrannu at yr hunanarfarnu hefyd.

- **Amserlen y cylch gweithredu**

Mae disgwyl i'r gwaith o gynllunio'r CDY fod yn unol â'r gofynion statudol ar gyfer targedau perfformio sydd wedi'u datgan yn *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011.* Mae'r Rheoliadau hyn yn datgan ei bod yn ofynnol i ysgolion gyflwyno targedau perfformio penodol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Mae'n fwriad i'r Rheoliadau CDY ddod i rym yn nhymor yr hydref 2014, i gyd-fynd â'r broses gynllunio. Bydd CDY a gaiff ei baratoi neu ei ddiweddaru ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym yn ystyried gofynion y Rheoliadau. Byddai disgwyl i ysgolion fod wedi mabwysiadu'r trefniadau newydd yn llawn erbyn 1 Medi 2015 fan bellaf. Dylai'r CDY fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei monitro, ei hadolygu a'i diwygio bob blwyddyn o leiaf.

Y tu hwnt i'r gofynion presennol i gyflwyno targedau perfformio penodol i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a'r adolygiad blynyddol arfaethedig a chymeradwyo'r CDY, dylai ysgolion benderfynu ar eu cylch cynllunio eu hunain i fodloni eu hamgylchiadau penodol eu hunain orau.

- **Cynnwys gofynnol y CDY**

Rydym am weld ysgolion yn defnyddio hunanarfarnu, yn seiliedig ar y data a ddisgrifir uchod, i ddatgan y meysydd i'w datblygu ac i bennu targedau gwelliant. Fel isafswm, cynigir bod y Rheoliadau'n datgan ei bod yn ofynnol i'r CDY gynnwys y canlynol.

I. Blaenoriaethau gwella'r ysgol (gan gynnwys sut mae blaenoriaethau cenedlaethol yn cael sylw), camau gweithredu, targedau a chanlyniadau disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a sut bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r gymuned leol ac ehangach.

II. Amlinellu blaenoriaethau gwella ysgolion (gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol), strategaethau, targedau a chanlyniadau disgwyliedig ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol a sut bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r gymuned leol ac ehangach.

III. Sut mae'r ysgol yn bwriadu rhoi sylw i anghenion datblygiad proffesiynol ei staff, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol dros dro, er mwyn rhoi sylw i'w blaenoriaethau.

IV. Sut mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys defnyddio ei gweithlu a'r cyllid sydd ar gael, i gyrraedd targedau a rhoi sylw i flaenoriaethau.

- **Cyhoeddi a mynediad i'r CDY**

Er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran yr angen am ddarparu mynediad i'r cyhoedd i'r wybodaeth allweddol yn y CDY, a hefyd ystyried 'statws byw' y cynllun, rydym yn cynnig bod cyhoeddi'r CDY yn unol â'r gofynion statudol ar gyfer cyhoeddi targedau perfformio, fel sydd wedi'u datgan yn *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011*. Mae'r Rheoliadau presennol yn datgan ei bod yn ofynnol i grynodeb o'r adroddiad blynyddol fod ar gael yn ehangach ac i adroddiad llawn fod ar gael ar gais ysgrifenedig. Mae'n fwriad i dargedau lefel uchel a chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, fel a geir yn y CDY, gael eu cyhoeddi fel rhan o'r crynodeb o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol llawn y Llywodraethwyr.

Bydd staff a llywodraethwyr ysgolion yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r CDY ac felly bydd rhaid wrth fynediad hwylus ato. Cynigir bod copi o'r CDY ar gael bob blwyddyn o leiaf i bob aelod o gorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a phob aelod o'r staff addysgu yn yr ysgol a'r staff eraill.

Mae sefydlu ymgynghorwyr her (arweinwyr systemau yn flaenorol) mewn consortia rhanbarthol, fel rhan o'r Model Cenedlaethol o Weithio'n Rhanbarthol, yn elfen allweddol mewn cyflwyno cyfrifoldebau awdurdodau lleol a chonsortia er mwyn codi safonau perfformio mewn ysgolion a rhannu arferion effeithiol. Bydd penderfynu ar gynnwys gofynnol ar gyfer CDY yn darparu ffocws mwy cyson ar gyfer ymwneud yr ysgolion ag ymgynghorwyr her.

Dylai'r CDY fod yn gynllun tair blynedd parhaus. Felly, bydd CDY sy'n cael ei baratoi neu ei ddiweddaru yn unol â'r Rheoliadau arfaethedig yn cynnwys cyfnod o dair blynedd bob amser o ddyddiad ei baratoi neu'r diweddariad diwethaf.

- **Dyletswydd i adolygu ac asesu, bob blwyddyn o leiaf, i ba raddau y mae'r targedau wedi cael eu cyrraedd**

  Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnydd tuag at gyrraedd targedau. Fel proses flynyddol, mae hunanarfarnu'n adnodd rheoli allweddol ar gyfer asesu perfformiad ysgol. Mae'n helpu ysgol i ganolbwyntio ar feysydd i'w datblygu ac yn sail i gynllunio ar gyfer gwelliant.

  Cynigir bod rhaid adolygu a diweddaru'r cynllun datblygu ysgol yn flynyddol, neu ar ôl arolwg gan Estyn, pa un bynnag a ddaw gyntaf. Os yw'r cynllun i gael ei adolygu yn dilyn arolwg, dylid gwneud hynny oddi mewn i'r amserlen ofynnol sydd wedi'i datgan gan Lywodraeth Cymru.

Dyma'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer gweithredu gofynion statudol.

- Hydref 2014 – y Rheoliadau'n dod i rym.
- Hydref 2014 – pob ysgol i ddechrau mabwysiadu'r trefniadau newydd.
- Erbyn 1 Medi 2015 – pob ysgol i gydymffurfio â'r trefniadau newydd.

## Cyfarwyddyd

Bydd cyfarwyddyd ar gael i gyd-fynd â'r Rheoliadau. Bydd y cyfarwyddyd yn cefnogi ysgolion i gynnal hunanarfarniad ac i ymgorffori dull cadarn, seiliedig ar dystiolaeth, o gynllunio a gweithredu i sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr. Bydd y cyfarwyddyd yn ymhelaethu ar y Rheoliadau ac yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am:

- y nodweddion cynllun datblygu ysgol effeithiol
- sut mae datblygiad y CDY yn cyd-fynd â gofynion ac amserlen gofynion statudol eraill ysgolion/awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth
- enghreifftiau o arferion effeithiol (e.e. o adroddiadau arolygu Estyn)
- astudiaethau achos.

Pwrpas y cyfarwyddyd fydd cefnogi ysgolion i sefydlu arferion effeithiol, heb roi pwysau ar ysgolion os yw eu harferion yn effeithiol eisoes.

## 6. Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Drwy gyflwyno’r newidiadau arfaethedig, rydym eisiau cyflawni’r canlyniadau canlynol ar gyfer pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir).

- Bydd gan bob ysgol CDY diweddar yn ei le sy’n datgan yn glir sut mae’r ysgol yn bwriadu gwella ei pherfformiad.
- Bydd y CDY yn ddogfen cynllunio strategol unigol sy’n cynnwys yr holl gynlluniau strategol eraill ac sy’n ffocws i unrhyw her, cefnogaeth neu ymyriad allanol, gan gynnwys gan yr awdurdod lleol a/neu’r consortiwm.
- Mae’r CDY yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae ei ffocws ar wella canlyniadau dysgwyr yn seiliedig ar y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Mae pob ysgol yn cynnal hunanarfarniad cadarn, gan ddefnyddio data perfformiad perthnasol, er mwyn datgan cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, sy’n sail i’r CDY.
- Mae’r CDY yn cynnwys targedau ar gyfer gwelliannau tymor byr a thymor hwy ac yn datgan sut mae’r ysgol yn bwriadu eu cyflawni, gan gynnwys y defnydd arfaethedig o adnoddau (gweithlu ac ariannol).
- Defnyddir y targedau sydd wedi’u datgan yn y CDY fel sail i amcanion y pennaeth, sydd wedi’u datgan yn y broses rheoli perfformiad.
- Mae’r CDY yn darparu cyd-destun ar gyfer y broses rheoli perfformiad i’r staff i gyd ac yn datgan sut bydd yr ysgol yn rhoi sylw i ddatblygiad proffesiynol ei staff er mwyn bodloni’r blaenoriaethau sydd wedi’u datgan (cenedlaethol, ysgol ac unigol).
- Mae’r cynnydd o ran cyrraedd targedau a chyflawni canlyniadau yn cael ei adolygu’n rheolaidd gan randdeiliaid allweddol ac mae’r CDY yn cael ei drin fel ‘dogfen fyw’ a’i adolygu fel y bo’n briodol.
- Mae’r CDY yn gynllun gwaith sydd ar gael yn hwylus i’r staff ac i’r llywodraethwyr.
- Mae holl staff yr ysgol a’r rhanddeiliaid allweddol eraill yn chwarae eu rhan yn y gwaith o lunio, gweithredu ac adolygu’r CDY.
- Cyhoeddir targedau a blaenoriaethau lefel uchel fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.